



FLVC


Flintshire Local **Voluntary** Council

CGLISFf

Cyngor **Gwirfoddol** Lleol Sir Fflint

Cefnogi, Hyrwyddo a Datblygu y Sector Gwirfoddol a Chymunedol

Adroddiad Effaith Blynyddol 2023/24



Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint



EIN HYMDDIRIEDOLWYR o fis Ebrill 2023

Barbara Roberts Cadeirydd

Pip Perry MBE

Marjorie Thomson

John Hatton

Tim Byram

Peter Agnew

Ian Papworth

Karen Armstrong

David Wisinger

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

CORLAN

Uned 3 Parc Busnes yr Wyddgrug

Ffordd Wrecsam

YR WYDDGRUG

Sir y Fflint CH7 1XP

☎ 01352 744000

✉ info@flvc.org.uk

www.flvc.org.uk

🐦 @FLVCFlintshire 📘 flvcpage

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3301204 Rhif
Elusen Gofrestredig 1062644

Adroddiad Effaith Blynnyddol 2023/24

EIN STAFF o fis Ebrill 2023

Ann Woods Prif Swyddog

Tessa Willow

Rheolwr Datblygu Trydydd Sector (Gwasanaethau Craidd)

Katherine Hussey

Rheolwr Datblygu Trydydd Sector

(Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

Tîm Gweinyddol

Nicola Valentine Uwch Weinyddydd

Karen Peters Gweinyddydd

Geraint Jones Gweinyddydd

Canolfan Gwirfoddolwyr

Claire Worrall

Uwch Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Mallaidh Long Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Emily Morgan Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Robyn Lee Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Cyllid a Llywodraethiant

Shaun Darlington Swyddog Datblygu Trydydd Sector
(Llywodraethiant)

Heather Hicks Swyddog Datblygu Trydydd Sector (Cyllid)

Tîm Rhagnodi Cymdeithasol

Charlotte Anderton Arweinydd Tîm Rhagnodi
Cymdeithasol

Kate Howard Arweinydd Tîm Rhagnodi Cymdeithasol

Dafydd Gwynedd Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

Joanne Overton-Jones Rhagnodydd Cymdeithasol
(Hwb Help Cynnar)

Nia Lloyd-Williams Rhagnodydd Cymdeithasol
(SPoA and Hwb Help Cynnar)

Stephanie Jones Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

Lewis Williams Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

ADRODDIAD CADEIRYDD a PHRIF SWYDDOG CGLISFF



2023 AGM

Bu Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn hyrwyddo, datblygu a chefnogi gweithgaredd gwirfoddol a chymunedol am dros 25 mlynedd. Fel tîm, ymfalchiwn mewn ymateb i newidiadau yn anghenion y gymuned a cheisio pob cyfle i wrando a dysgu gan y rhai yr ydym yma i'w cefnogi.

Llawer o ddiolch am roi'r amser i ddysgu am waith CGLISFF. Drwy gytundeb seilwaith gyda Llywodraeth Cymru rydym yma i gefnogi'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol i dyfu, i gael ei glywed ac i ddylanwadu ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithlon. Mae gan ein tîm arbenigedd mewn Arfer Da ar gyfer Gwirfoddoli, Cyllid Cynaliadwy a Llywodraethiant Da. Mae gennym hefyd wasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol sydd wedi ennill ei blwyf – yn gweithio gyda chydweithwyr mewn ieuchyd a gofal cymdeithasol i gysylltu preswylwyr Sir y Fflint gyda gwasanaethau gwirfoddol a/neu gymunedol. Drwy bartneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir y Fflint, gallwn ddod â gweithgareddau ieuchyd, gofal cymdeithasol a llesiant ynghyd – yn strategol a hefyd drwy ymatebion holistig aml-asiantaeth i anghenion llesiant preswylwyr Sir y Fflint.

Yn 2023/24 fe wnaethom addasu ein ffyrdd o gyflenwi gwasanaethau i ateb anghenion y rhai yr ydym yma i'w cefnogi. Mae llawer o'n cyfarfodydd yn awr yn cynnwys elfen hyfforddi anffurfiol a rydym wedi addasu ein prosiect Gwirfoddoli â Chymorth i gynnig

gwasanaeth mwy pwrpasol ar gyfer unrhyw unigolyn sydd eisiau cymorth ychwanegol cyn dewis p'un ai, sut a lle i wirfoddoli eu hamser i helpu o fewn eu cymuned leol.

Yn 2023/24 fe wnaethom adnewyddu ein Statws Elusen Ddibynadwy (gynt Safon Ansawdd PQASSA). Fel rhan o'r adolygiad hwn nodwyd CGLISFF fel 'tîm effeithlon, effeithiol a gyda ffocws' a 'phartner dibynadwy sy'n cyflawni ar gyfer eu cymuned'. Rydym yn canolbwyntio ar welliant parhaus. Gadewch i ni wybod sut y gallwn eich helpu.

Diolch i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, sy'n parhau i lywio gwaith CGLISFF a chefnogi'r tîm staff. Rydym wrthi'n edrych am aelodau Bwrdd newydd a hoffem glywed gennych os ydych chi'n awyddus i ddatblygu ein sefydliad ymhellach.

Gyda diolch

Barbara Roberts Cadeirydd CGLISFF
Ann Woods Prif Swyddog CGLISFF

☎ 01352 744028

✉ ann.woods@flvc.org.uk

YMGYSYLLTU a DYLANWADU



Yn ystod 2023/24 bu gan CGLISFF rôl allweddol yn natblygiad strategol Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Mae Prif Swyddog CGLISFF yn cynrychioli'r trydydd sector ar Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru ac yn 2023 daeth yn Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd newydd Sir y Fflint a Wrecsam (y cadeirydd anstatudol cyntaf yn unrhyw Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru).
- Rydym yn cwrdd yn rheolaidd gyda phartneriaid statudol a thrydydd sector fel rhan o bartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Yn 2023 buom yn gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint i gyflwyno Cynhadledd yng Nglannau Dyfrdwy ar wasanaethau cymorth ar gyfer teuluoedd. Cynhelir Cynhadledd 2024 ym mis Tachwedd a bydd ganddi Thema Addysgol.
- Gyda'n cydweithwyr yn AVOW yn Wrecsam, rydym wedi hwyluso sesiynau dysgu yn Rhaglen Arweinwyr Ifanc Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rydym yn aelodau o Grŵp Llywio Adferiad Economaidd Sir y Fflint, sydd wedi goruchwyllo'r asesiad o geisiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Sir y Fflint.
- Rydym wedi gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddylanwadu ar ymarfer caffael ar gyfer dull gweithredu aml-asiantaeth at y gwasanaethau cyhoeddus.
- Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid TSSW ar strategaeth genedlaethol Dysgu a Datblygu, ffrwd gwaith effaith a diogelu cymuned ymarfer.
- Rydym yn cynrychioli Cyngorau Gwirfoddol Sirol Gogledd Cymru ar y Fforwm Cydnerthedd Lleol (Cynllunio Argyfwng) ac yn mynychu is-grŵp Cymorth Dyngarol a Gwirfoddoli Gogledd Cymru.
- Rydym yn cwrdd yn rheolaidd gyda grwpiau cymunedol newydd a phresennol a sefydliadau elusennol i'w cysylltu gyda'r sector ehangach a phartneriaid statudol.
- Rydym wedi cyfrannu at raglen Deddf Gofal Gwrthgyfartal, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy ddod â phartneriaid ynghyd (Iechyd, Llywodraeth Leol, Llais Dinesydd, Diwydiant, Sector Gwirfoddol/Trydydd Sector) ar lefel clwstwr gofal sylfaenol i hwyluso cydweithio ar y penderfyniadau ehangach sy'n peri anghydraddoldeb iechyd.
- Cynrychioli'r Trydydd Sector a rhagnodi corfforaethol yng nghyfarfodydd Clwstwr cyflymach Meddygon Teulu Sir y Fflint sy'n dwyn ynghyd pob gwasanaeth sy'n ymwneud ag iechyd a gofal.

GWIRFODDOLI

“ Rhoddodd CGLISFF ddiben i mi. Maent yn fy nghefnogi gyda sesiynau dal i fyny rheolaidd a goruchwyllo i sicrhau mod i'n hapus gyda'r rôl neu os wyf angen mwy o gymorth neu hyfforddiant. Mae wedi rhoi rhywbeth i mi edrych ymlaen ato a helpu fy iechyd meddwl a chorfforol. ”



Eleni mae'r tîm Canolfan Gwirfoddoli wedi cyflwyno nifer o ddigwyddiadau rhagorol ar gyfer rheolwyr a chydlynwyr gwirfoddol, yn cynnwys sesiynau hyfforddi byr ar bynciau tebyg i recriwtio gwirfoddolwyr, gwefan newydd Gwirfoddoli Cymru, cynnwys pobl ifanc fel gwirfoddolwyr a chyfle i rwydweithio a dysgu gan eraill mewn swyddi tebyg. Cawsom adborth rhagorol gan bobl a fynychodd y digwyddiadau hyn, a byddwn yn parhau i gyflwyno'r sesiynau bob chwarter, gan ymateb i anghenion ac awgrymiadau pobl sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr.

Fe wnaethom newid model cyflenwi ar gyfer ein prosiect gwirfoddoli â chymorth, mewn ymateb i adborth gan bartneriaid a chyfranogwyr ifanc. Rydym yn awr yn cynnig sesiynau blasu un diwrnod a dau ddiwrnod ar gyfer unrhyw un 14+ oed a hoffai roi cynnig ar weithgareddau gwirfoddol a chael chymorth un-i-un i'w helpu i ganfod rôl addas.

Mae ein panel Grant dan Arweiniad Ieuentid sydd i gyd yn wirfoddolwyr rhwng 14 a 25 oed, wedi ffynnu eleni a chymerodd aelodau'r rôl ychwanegol o benderfynu ar enillwyr ein Gwobrau Gwirfoddoli Ieuentid blynnyddol (Gwobrau Tom Jones); mae eu hagwedd broffesiynol ac ymroddiad yn ysbrydoliaeth.



277

Cefnogi pobl i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli

70

wedi cymryd rhan mewn 4 Cyfarfod Trefnwyr Gwirfoddol



Dros 30

grŵp a sefydliad wedi cael cymorth a chyngor uniongyrchol ar faterion yn ymwneud â gwirfoddoli ac arfer da

“

Cawsom ein cefnogi yn ddiweddar gan CGLISFF i hyrwyddo ein rolau gwirfoddoli ar wefan Gwirfoddoli Cymru a bu'r canllawiau a'r wefan o fudd mawr i'r sefydliad. Rydym eisoes yn gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau am wirfoddoli, ac yn gobeithio recriwtio 30 gwirfoddolwr arall gan ein bod yn dathlu bod yn 30 oed yn y flwyddyn nesaf.

”

CYLLID A LLYWODRAETHIANT

“

Fe gawson ni'r arian! Diolch yn fawr am eich cymorth gyda hyn – rydym mor falch i fod wedi ei sicrhau o'r diwedd a nawr i fwrw iddi i sicrhau bod ein hadeilad yn gwbl wyrdd gydag eu cymorth. Diolch eto – rwy'n gwybod i chi chwarae rhan fawr yn hyn a rydym yn ddiolchgar iawn. Hwre!!

“

Hoffwn ddiolch o galon i chi ar fy rhan fy hun a hefyd ar ran yr Ymddiriedolaeth – am eich help a'ch arweiniad gwerthfawr wrth lunio'r cais (Cofrestru Elusen), rwy'n siŵr y bu'r mewnbwn yn hollbwysig wrth sicrhau canlyniad mor gyflym a llwyddiannus.

”

Roedd ymestyn y Gronfa Ffyniant Gyffredin (rhan o raglen Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU yn ddatblygiad sylweddol eleni. Mae CGLSFF yn gweithio mewn partneriaeth gyda Cadwyn Clwyd ar gronfa allweddol Cymunedau Ffyniannus Sir y Fflint, gan gefnogi mudiadau lleol i fanteisio ar gyllid ar gyfer gwella eu safleoedd a datblygu eu gweithgareddau. Mae'r gwaith yn parhau i flwyddyn ariannol 2024-25 a disgwylir iddo fuddsoddi bron i £750,000 mewn grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol yn Sir y Fflint. Mae gan aelodau staff CGLSFF wybodaeth fanwl o grwpiau lleol a chyfrannodd hyn yn sylweddol at lwyddiant y rhaglen.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gefnogi 318 grŵp gyda chynghor ac arweiniad ar bob agwedd o redeg eu grŵp/mudiad, yn cynnwys help gyda chyfansoddiadau, cofrestru elusennau, gwybodaeth am gyllid, datblygu polisi, llywodraethiant a gofynion cyfreithiol.

Fe wnaethom helpu ystod eang o fudiadau cymunedol a gwirfoddol lleol i gyrchu mwy na £2 miliwn o ffynonellau cyllid lluosog. Gweinyddwyd tair cronfa grant:



Dyfarnodd Cist
Gymunedol FCC 28
grant a oedd yn
gyfanswm o
£21,353



Dyfarnodd Grantiau
dan Arweiniad
leuenctid Sir y Fflint 7
grant a oedd yn
gyfanswm o
£5,540

Dyfarnodd Cronfa
Unigrwydd ac
Ynysigrwydd
Cymdeithasol Sir y Fflint
9 grant a oedd yn
gyfanswm o **£22,690**



Cynhaliwyd digwyddiadau Cwrdd â'r
Cyllidwyr gydag ystod o gyllidwyr lleol a
rhanbarthol yn cynnwys:

- Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Treth Gwarediadau Tirlenwi
- Easyfundraising
- Cronfa Budd Cymunedol Parc Adfer
- Henry Smith
- Chwaraeon Cymru

Fe wnaethom barhau i roi cynghor ac arweiniad yn y ffordd orau i'r grŵp dan sylw, yn cynnwys wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy e-bost a drwy sianeli ar-lein a pharhau i roi cyfleoedd i grwpiau alw heibio mewn sesiynau allgymorth ledled y sir fel bod ein gwasanaethau ar gael ac yn gyfleus i gynifer o bobl ag sydd modd.

IECHYD A LLESIANT

Mae cronfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ariannu swyddi allweddol Galluogydd Iechyd a Llesiant ym mhob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn y Gogledd. Mae'r swydd yn ddolen strategol allweddol rhwng sefydliadau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thrydydd Sector. Mae gan CGLISFF hefyd dîm Rhagnodi Cymdeithasol, sy'n cydweithio gyda'r sector statudol i gysylltu preswylwyr Sir y Fflint gyda gwasanaethau iechyd a llesiant yn y gymuned.



Yn 2023/24

Gwnaethom gyfrannu at bartneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Ar y cyd gyda AVOW yn Wrecsam, rydym wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd o'r rhwydwaith Iechyd a Llesiant. Rydym yn dwyn cyrff trydydd sector a phartneriaid lleol ynghyd (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) sy'n gweithredu yn Sir y Fflint a Wrecsam gyda diddordeb mewn iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Rhoi cyfleoedd rhwydweithio a fforwm i drafod pynciau cyfoes a rhannu gwybodaeth a syniadau arfer da/gorau.



Rydym yn parhau i gynnal ein rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc yn Sir Fflint gyda hyd at 25 yn mynychu gan gynnig cyfleoedd rhwydweithio a chydweithio, gan ganolbwyntio ar y trydydd sector a phartneriaethau statudol sy'n gweithio gyda rhai 0-25 oed.

Yn y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 mae'r tîm rhagnodi cymdeithasol wedi cefnogi 2,069 o breswylwyr Sir y Fflint.



Cafodd ein tîm Rhagnodi Cymdeithasol atgyfeiriadau gan ystod eang o ffynonellau yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, prosiectau cymunedol, teulu a ffrindiau, a hunan-atgyfeiriadau. Mae pobl rydym yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi ein clust i wrando ac arbenigedd.



Rwy'n teimlo fel eich bod wedi achub fy mywyd"


"Diolch yn fawr iawn am bopeth a wnewch. Mae'n braf gwybod fod rhywun yn gofalu amdanom."



CRYNODEB CYFRIFON

Am y flwyddyn yn diwedd
31 Mawrth 2024

Sut caiff CGLLSFF ei ariannu



Cyfanswm Incwm yn 2023/24 **£651,694**

Gwariant 2022/23 a 2023/24

Costau Staff
Costau Safle
Dibrisiant
Costau CCB
Ffioedd Proffesiynol
Gwirfoddolwyr a Hyfforddiant
Yswiriant ac Indemnïaeth
Costau Llywodraethiant
Dosbarthu Grantiau

CYFANSWM

2024

472,105
72,724
-
640
25,641
1,991
2,039
2,960
44,579

£622,679

2023

448,154
78,369
1,277
1,984
8,268
-
2,122
9,665
78,286

£628,125

Cyfanswm Gwariant yn 2023/24 **£622,679**